# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Chwefror, 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones** |
| **Rhif Cyswllt:** | **01286 679072** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**
Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**
Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 18 o Ionawr, 2023.

1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**CEFNOGAETH GORFFORAETHOL**

## 2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 8 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

## 2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

2.1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.

2.1.2. Mae'r diweddariad ar gynnydd Cynllun Cadw'r Budd yn Lleol wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fis Rhagfyr, 2022. Cafwyd adborth calonogol a bydd gwaith yn cael ei wneud i gasglu esiamplau o dendrau ble mae cwmnïau lleol wedi methu, holi os oes modd prynu tanwydd ar ran trigolion neu hwyluso trefniadau prynu tanwydd ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ynni a chyflwyno diweddariad ymhen blwyddyn ar ganlyniadau cynllun peilot ar fethodoleg caffael buddion cymdeithasol.

2.1.3 O ran camau nesaf y cynllun penodol hwnnw bydd gwaith yn bwrw mlaen i adnabod cyfleon pellach i wireddu buddion drwy drefn cytundeb fframwaith.

## 2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

2.2.1 Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Lansiwyd yr ail gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol ar y 18fed o Hydref, 2022. Mae diddordeb brwd wedi bod yn y rhaglen yn ogystal â gweithgaredd ehangach y prosiect. Bydd dwy gyfres pellach o'r Rhaglen yn ystod 2023 i'w cynnal yn ystod y Gwanwyn a'r Hydref.

2.2.2 Mae'r "sgyrsiau dros baned" ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion benywaidd y Cyngor yn parhau. Cynhaliwyd cyfres o'r sgyrsiau yn ddiweddar gyda siaradwyr mewnol ac allanol yn rhannu eu profiadau ac mae cyfresi pellach i'w cynnal yn ystod 2023.

## 2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

2.3.1 Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.

2.3.2 Mae ymchwil pellach wedi ei wneud er mwyn darparu hyfforddiant penodol ar gydraddoldeb i reolwyr, yn arbennig ym maes Gwrth-Hiliaeth. Mae gwaith hefyd wedi ei wneud i sefydlu lleoliad mewnrwyd ar gyfer adnoddau i reolwyr. Bydd sesiwn hyfforddiant ychwanegol i Aelodau a sesiwn arbenigwr i aelodau staff Cynllun Yfory yn cael eu cynnal cyn diwedd mis Ionawr.

2.3.3 Mae'r gwaith i weithredu ar y canfyddiad fod angen Cymraeg coeth ym mhob swydd yn y Cyngor wedi cychwyn. Mae gwaith i'w wneud i newid y canfyddiad hwnnw ac

mae'r angen i wneud hynny yn cyd-fynd â'r prosiect cynllunio'r gweithlu sydd yn edrych ar wella sut y gall y Cyngor ddatblygu a gwella sut mae'n recriwtio.

2.3.4 Mae rhywfaint o oedi pellach yn y gwaith gwblhau'r gwaith o ddatblygu fersiwn newydd o'r ffurflen asesiad effaith cydraddoldeb, hynny yn dilyn ymadawiad aelod staff allweddol yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, ond cafwyd addewid y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosib.

2.3.5 Mae'r gwaith o ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'r drefn o ddatblygu cynlluniau arbedion posib wedi cychwyn.

2.3.6 Er bod 80% o staff sydd wedi eu lleoli mewn swyddfa ac sydd â mynediad cyfrifiadurol llawn wedi cwblhau'r holiadur i ddatgan eu nodweddion cydraddoldeb, dim ond rhyw 30% o staff mewn sefyllfa rheng flaen tu allan i'r swyddfa (e.e. staff ysgol, staff cartrefi gofal a staff ailgylchu) sydd wedi gwneud hynny. Mae trafodaethau wedi ei cynnal gyda rhai o'r Adrannau er mwyn gwella'r sefyllfa.

2.3.7 Mae'r archwiliad annibynnol ar systemau cyflog y Cyngor wedi ei gwblhau, gyda'r adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno yn hwyr ym mis Rhagfyr. Cafodd yr archwiliad ei gynnal gan arbenigwr annibynnol. Pwrpas y gwaith oedd ystyried os oes yna gamwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw yn ein systemau tâl. Mae'r adroddiad yn dod i gasgliad nad oes yna bryderon am gamwahaniaethu anghyfreithlon, a bod amddiffyniad cyflog cyfartal y Cyngor i'w weld yn gadarn. Fel sylw cyffredinol pellach (a thu allan i brif ffocws yr archwiliad), mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod yna fwlch tâl rhwng merched a dynion o fewn y gweithlu (yr hyn a elwir yn y Saesneg yn *gender pay gap*).

2.3.8 Mae'r gwaith o gasglu a chyflwyno gwybodaeth er mwyn derbyn adborth gan gwmni *Inclusive Employers* ynghylch pa mor gynhwysol ydym ni fel cyflogwr wedi ei gwblhau a'i gyflwyno cyn y Nadolig. Disgwylir adborth gan y cwmni ynghylch sut i ddatblygu ymhellach yn y maes ym mis Mawrth 2023.

## 2.4 ENWAU CYNHENID GYMRAEG

2.4.1 Fel y gwyddoch, mae pryder fod enwau llefydd cynhenid Cymraeg yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg. Mae'r prosiect yn blaenoriaethu'r meysydd i gael sylw a hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud o safbwynt adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd, enwau llefydd ac ati.

2.4.2 Mae un gweithdy ysgol gynradd wedi ei gynnal i hyrwyddo enwau llefydd drwy ddefnyddio'r map rhyngweithiol gydag ymweliad arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Ionawr, a gwaith hyrwyddo'r map yn mynd rhagddo ymysg ysgolion cynradd ac uwchradd.

2.4.3 Mae gwaith ymchwil cychwynnol ar y gwaith newid enwau strydoedd yn mynd rhagddo a mae sesiynau hyfforddi staff a sesiwn enwau tai wedi eu trefnu.

2.4.4 Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar gyfer cynllunio gweithgareddau cysylltiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2023.

**2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR**

2.5.1 Mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

2.5.2 Mae hyfforddiant iaith yn parhau gyda nifer o staff yn manteisio ar gyfleoedd mewnol ynghyd ag allanol. Mae gwaith o hyrwyddo cyrsiau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith yn digwydd yn barhaus. Hyrwyddwyd cyrsiau dysgu Cymraeg i ddechreuwyr sy'n dechrau ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror ac yn cael eu cynnal gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Siwan Iorwerth, Rheolwr Cynllun Cymraeg Gwaith, er mwyn trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chael gwybodaeth am gyrsiau a chyfleoedd newydd.

2.5.3 Mae cydweithio'n digwydd gyda thîm Datblygu'r Gweithlu (Oedolion, Iechyd a Llesiant) er mwyn hyrwyddo adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg gyda staff yn y maes gofal. Anfonwyd newyddlen at staff gyda gwybodaeth am wersi ac apiau defnyddiol. Diweddarwyd ychydig ar yr adnoddau sydd ar y Safle Iaith mewnol.

2.5.4 Mae gwaith yn digwydd gyda'r Adran Cyllid a gyda chwmni Byw'n Iach er mwyn casglu mwy o hunanasesiadau iaith gan staff.

**2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

2.6.1 Pwrpas y prosiect yma gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Mae ffocws y prosiect ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiofyn.

2.6.2 Mae Cwmni Iaith Cyf wedi eu penodi a gwaith arsylwi wedi ei gynnal yn y derbynfeydd ym mis Mai a Mehefin. Mae grwpiau ffocws gyda'r staff sydd wedi cymryd rhan wedi eu cynnal gan Cwmni Iaith yn ystod mis Gorffennaf. Mae argymhellion wedi eu datblygu er mwyn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd a phecyn adnoddau a chanllawiau i staff wedi ei gwblhau. Mae sesiwn ymgynghori wedi ei

gynnal ym mis Hydref gyda detholiad o reolwyr rheng flaen er mwyn cael eu barn ar y pecyn adnoddau a hyfforddiant i staff.

Caiff canfyddiadau'r arsylwi, argymhellion a phecyn adnoddau a chanllawiau datblygu eu cyflwyno i aelodau Is-grŵp y Gymraeg maes o law. Bwriedir treialu sesiwn hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer rheolwyr a phecyn adnoddau hyfforddiant fydd yn canolbwyntio ar arfogi staff i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn derbynfeydd.

2.6.3 Cafwyd cytundeb i gychwyn prosiect newydd a fydd yn casglu gwybodaeth am arferion da o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg a chynnig cefnogaeth i wella sgiliau iaith ar draws sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

## 2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

2.7.1 Mae'r prosiect yma wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol am y tro cyntaf yng Nghynllun y Cyngor am eleni.

2.7.2 Mae'r maes Iechyd Diogelwch a Llesiant o dan y chwydd wydr mewn ffordd na fu erioed o'r blaen, a hynny am sawl rheswm. Yn amlwg, daeth cyfnod y pandemig a'n diogelwch ni oll i flaen meddwl pawb, ac mae cadw pawb yn ddiogel yn un o'r disgwyliadau mwyaf sylfaenol sydd ar y Cyngor gan bobl Gwynedd.

2.7.3 Mae dyddiadau wedi eu pennu ym mis Chwefror 2023 ar gyfer sesiwn hyfforddi ar 'Arwain yn Ddiogel' i Dîm Rheoli'r Cyngor. Mae hyfforddiant Aelodau Etholedig wedi ei adolygu i gynnwys elfen ar eu diogelwch personol nhw fel aelodau. Mae sawl cwrs IOSH (ychwanegol i'r arfer) wedi eu trefnu i gyfarch anghenion Adrannau penodol e.e. dau gwrs IOSH i Benaethiaid ysgolion yn rhedeg cyn diwedd Mawrth (un ddiwedd Ionawr ac un ym Mawrth) a chwrs arall fis Ionawr yn benodol i Reolwyr Gofal.

2.7.4 Mae Swyddogion wedi cydweithio gyda Swyddog Prosiectau Systemau Adnoddau Dynol i fapio prosesau system adrodd ar ddamwain i'r Uned Iechyd a Diogelwch . Mae hwn at bwrpas bod yn glir o'n anghenion fel Cyngor i fynd allan i gaffael systemau allanol pwrpasol. Mae briff pendant wedi ei gytuno arno o ran system iechyd a diogelwch ac felly yn barod i fynd allan i'r farchnad am brisiau.

2.7.5 Mae Cynhadledd Llesiant Meddyliol wedi ei threfnu ar gyfer y 6ed o Chwefror.

## 2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor.

2.8.2 Mae gwaith yn parhau ar greu cynnwys ar gyfer gwefan Gyrfaoedd pwrpasol gyda'r bwriad i gael y wefan yn fyw yn ystod mis Chwefror. Bydd y wefan yn cael ei defnyddio fel y prif borth ar gyfer denu ymgeiswyr i swyddi, a hefyd maes o law yn rhoi gwybodaeth am wahanol lwybrau gyrfaoedd o fewn y Cyngor.

2.8.3 Mae'r Cynllun Prentisiaethau a'r cynllun graddedigion yn parhau i wneud cynnydd da ac yn cael cydnabyddiaeth ar draws y Cyngor a thu hwnt. Mae'r Tîm Talent a Phrentisiaethau wedi cychwyn ar y cylch diweddaraf o ddenu prentisiaid i wasanaethau'r Cyngor.

2.8.4 O ran datblygu a chael trefn a dealltwriaeth o natur problemau recriwtio sydd yn y Cyngor ar hyn o bryd mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni. Bwriedir cyflwyno adroddiad byr i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar y prif ganfyddiadau ddiwedd mis Ionawr.

2.8.5 Mae cyfres o gyfarfodydd yn eu lle yn ystod mis Ionawr i yrru yn ei flaen y cynllun peilot sydd yn cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i ddatblygu arferion cynllunio gweithlu tymor hir.

2.8.6 Mae peth oedi wedi bod yn y gallu i gyflwyno dau ddatblygiad penodol ar draws y Cyngor, sef y drefn o gynnal cyfweliadau gadael a darparu'r gallu i ymgeiswyr am swyddi ddefnyddio ffurflen gais symlach yn ystod y broses recriwtio. Mae'r oedi ar y ddau ddarn gwaith yn deillio o'r un ffynhonnell, sef y ffaith bod yna res o ofynion ar y tîm technoleg gwybodaeth sydd yn cyflawni'r gwaith ar ein rhan, a bod angen iddyn nhw flaenoriaethu'r llwyth gwaith hwnnw.

2.8.7 Mae gwaith cychwynnol wedi ei gyflawni ar ddatblygu cynllun profiad gwaith o'r newydd - i'w drafod ymhellach yn y Grŵp Prosiect dros y misoedd nesaf.

2.8.8 Cynhaliwyd tair ffair swyddi wedi eu cynnal ar y cyd â'r Adran Economi ac Adfywio yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Roedd y ffeiriau hyn yn canolbwyntio ar swyddi a oedd yn wag ar y pryd. Mae mwy o waith datblygu i'w wneud ar yr agwedd hon dros y misoedd nesaf.

## 3. PERFFORMIAD –

3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

### 3.2 **Cefnogol**

3.2.1 Mae gan y Gwasanaeth Cefnogol fesur newydd ers mis Medi 2022 sydd mesur y nifer dyddiau o anfon y cais i fod yn derbyn canlyniad y gwiriad 'DBS'. Ym mis Rhagfyr cyflwynodd y Gwasanaeth Cefnogol 187 o geisiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd. Roedd canlyniad prosesu'r ceisiadau yn ystod y mis hwnnw yn 3 diwrnod sy'n berfformiad arbennig.

3.3 **Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

3.3.1 Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o waith wedi ei wneud ar ddatblygu'r ddarpariaeth hunan wasanaeth, sydd ar wefan gorfforaethol y Cyngor – www.gwynedd.llyw.cymru, ar gyfer defnydd trigolion Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cadw golwg manwl ar y nifer ceisiadau gwasanaeth sydd yn cael eu cyflwyno ar-lein.

3.3.2 Mae perfformiad mis Tachwedd 2022 wedi dilyn y patrwm arferol gyda nifer ceisiadau ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr gwelwyd gostyngiad o 2,746 cais o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hynny yn bennaf oherwydd nad oedd angen archebu slot Canolfan Ailgylchu o 28 Rhagfyr 2022 hyd ddechrau mis Ionawr. Roedd 4,093 slot ailgylchu yn llai wedi'u harchebu ym mis Rhagfyr 2022 o'i gymharu â Rhagfyr 2021.

Er gwaetha'r gostyngiad yn y gwasanaeth penodol hwnnw, mae'r ffigurau yn dangos bod nifer o wasanaethau eraill wedi gweld cynnydd yn y ceisiadau o'u cymharu â Rhagfyr 2022, e.e. talu am gasgliad gwastraff gardd, rhoi gwybod am fin heb ei gasglu, rhoi gwybod am broblem baw ci, rhoi gwybod am broblem llifogydd/gyli wedi blocio, rhoi gwybod am broblem rhew ac eira, cais am drwydded tacsi.

3.4 **Cyswllt Cwsmer a Chofrestru**

3.4.1 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd. Mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth ac erbyn hyn mae'r lefelau staffio yn cyfateb i'r hyn sydd wedi ei adnabod ar gyfer strwythur y gwasanaeth.

3.4.2 Mae perfformiad cyfartaledd ateb galwadau yn y Ganolfan Gyswllt wedi gwella ers cyrraedd lefelau staffio strwythur y gwasanaeth gyda'r nifer galwadau a gollwyd yn parhau i fod yn isel.

3.4.4 Gyda 3 aelod o staff wedi'u hyfforddi i ateb ymholiadau *'web chat'* yn raddol mae defnydd o'r ddarpariaeth yn cynyddu. Ym mis Tachwedd 2022 ymatebwyd i 35 ymholiad '*web chat'* ynghyd a 13 yn ystod mid Rhagfyr 2022.

3.4.5 Mae'r canran marwolaethau a gofrestrir o fewn 5 diwrnod (heb eu cyfeirio at y crwner) wedi gostwng i gymharu â llynedd. Ni ragwelir gweld gwelliant yn y perfformiad gan fod problemau yn parhau rhwng meddygon yr ysbyty a'r archwilwyr meddygol. Mae'r drefn o gyfeirio pob marwolaeth i swyddfa'r archwilwyr meddygol yn troi'n statudol eleni, ac felly mae'n debyg y derbynnir canllawiau a rheolau gweithredu newydd yn y dyfodol agos o ran targedau perfformiad ac ati.

3.3.6 O ran y nifer o ddyddiau a gymerir i ddod i benderfyniad ar gymhwysedd unigolyn am fathodyn glas mae'r gwasanaeth yn edrych yn benodol ar y nifer o ddyddiau cyfartalog

mae ymgeisydd yn disgwyl cyn cael penderfyniad ar eu cais. Mae'r cyfartaledd yn 10.41 diwrnod gwaith, i lawr o 11.22 diwrnod ers yr Hydref. Caiff rhai ceisiadau eu cymeradwyo yn syth, ond ar rhai achlysuron gall unigolion ddisgwyl hyd at 51.56 diwrnod yn arferol cyn cael penderfyniad, eto mae'r ffigwr hwn i lawr o 55.30 diwrnod sydd yn lleihad o 3.74 diwrnod ers yr Hydref. Yn y mwyafrif o achosion ble mae rhaid disgwyl cyfnod hir am ymateb mae'r oedi oherwydd diffyg gwybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais gwreiddiol neu fod yr unigolyn wedi apelio'r penderfyniad ac yn disgwyl am asesiad pellach gan y cwmni asesu annibynnol.

3.4 **Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**

3.4.1 Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn casglu adborth yn gyson ynglŷn ag i ba raddau mae hyfforddiant yn eich helpu unigolion i gyflawni eu rôl ac mae'r sgôr adborth yn gyson. Roedd sampl llai nac arferol y tro hwn oherwydd nifer cyfyngedig digwyddiadau ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Cefnogol a Thechnoleg Gwybodaeth er mwyn gwella cywirdeb adroddiadau.

3.4.2 Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â'r Gweithdy Cefnogi a Mentora - Prentisiaid a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd adborth cadarnhaol hefyd i hyfforddiant Diogelu Data ynghyd a hyfforddiant Gofal Cwsmer.

3.4.3 Dros yr wythnosau diwethaf mae dau e-fodiwl newydd wedi ei gosod ar y poeth e-ddysgu sef Ymwybyddiaeth Tân a Diogelwch Seibr. Yn ogystal mae gwaith wedi cychwyn ar greu ADNODD RHEOLWYR ar gyfer pob Rheolwr ond gydag elfennau ychwanegol ar gyfer Rheolwyr Newydd.

3.4.4 Mae'r Wal Lwyddiannau sydd wedi ei ddatblygu i arddangos negeseuon sydd wedi eu derbyn gan y cyhoedd yn diolch a chanmol staff am eu gwaith yn parhau. Bellach mae 1107 o sylwadau o ddiolch a chanmol wedi eu derbyn ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

3.4.5 Mae'r cynllun buddiannau staff yn mynd o nerth i nerth gyda 2483 bellach wedi arwyddo i'r Cynllun Vectis, mae hyn y gynnydd o 1249 ers Mawrth 2019. Mae 249 o fusnesau ar y cynllun hybu busnesau lleol erbyn hyn gyda 182 wedi mynegi ei bod yn gweld gwerth yn y cynllun. O ran y cynllun beics mae 43 unigolyn wedi cael beic ers mis Ebrill 2022.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1.1 Rhagwelir sefyllfa o danwariant o (£19k) gan yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu tuag at y tanwariant, megis trosiant staff mewn nifer o wasanaethau a thanwariant ar nifer o benawdau eraill o fewn yr Adran. Mae'r tanwariant yn cael ei leihau yn sgil rhagolygon o ddiffyg incwm yr Argraffdy. Mae'r Adran wedi llwyddo i wireddu eu holl gynlluniau arbedion erbyn hyn.

**GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**Pwrpas**

**“Darparu gwasanaeth cyfreithiol i’r Cyngor sydd yn ei alluogi i weithio yn effeithiol er budd pobl Gwynedd ”**

Yn ogystal â gwneud ystod o waith cyfreithiol rydym hefyd yn cefnogi prif flaenoriaethau’r Cyngor, yn benodol felly gweithredu y Strategaeth Tai , Moderneiddio Ysgolion a’r Ddeddfwriaeth newydd o amgylch 2il gartrefi. Mae heriau recriwtio yn parhau yn heriol ond rydym yn penodi i swyddi er fod ambell benodiad yn parhau yn anodd. Fodd bynnag rydym yn cymryd camau rhagweithiol i gyfarch y risgiau yma. Canolbwyntir hefyd ar sicrhau fod cefnogaeth ar gael i’r Cyngor a’i Wasanaethau drwy ddefnyddio cyfreithwyr locum ac allanol i bontio.

Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Ers hydref 2022 mae’r tim wedi creu trefn newydd a symlach ar gyfer ceisio adborth. Bellach fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae’r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon Iawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Eleni hyd yn hyn mae’r sgôr wedi bod yn 100% lefel 5 ar sail 12 ymateb gan gydnabod fod y sustem yn parhau i ddatblygu.

<u>**PRIODOLDEB**</u>

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:**

**Cyfrannu at y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**

Mae’r Swyddog Monitro yn gweithredu cyfrifoldebau statudol y Swyddog Monitro y Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd (“CBC) , sydd hefyd yn cynnwys dyletswyddau cyffelyb i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae hyn wedi golygu gweithredu a darparu cefnogaeth arbenigol ar faterion cyfansoddiadol a threfniadaeth y CBC. Paratowyd dogfennau cyfansoddiadol cychwynnol gwaith sydd yn parhau yn ogystal a mynychu cyfarfodydd i gynghori. Er fod elfennau cwblhau gwaith sefydlu y CBC yn parhau mae gwaith ar gychwyn i ddod a’r swyddogaethau yn weithredol . Rhan o’r gwaith nesaf fydd sicrhau fod y capasisit yn cael ei ddatblygu i gefnogi’r gwaith yma a hynny mewn partneriaeth gyda’r Cynghorau cyfansoddol eraill.

**Gweithio gyda’r Pwyllgor Safonau i ymdrin a’r adolygiad o’r fframwaith foesegol yn deillio o Adroddiad Mr Richard Penn ar y Framwaoth Foesegol.**

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Richard Penn disgwylir am ymateb y Lywodraeth i’r argymhellion sydd yn cwmpasu materion megis trefniadau datrys lleol, hyfforddiant a chyd berthynas y gyfundrefn a chynghorau tref a chymuned. Mae pa gamau mae’r Llywodraeth am gymryd

mewn ymateb yn greiddiol i sefydlu sut i weithredu. Disgwylir fod ymgynghoriad ar y rheoliadau yn agor yn y yr wythnosau nesaf a bydd cyfle i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad yma.

Yn y cyfamser mae'r Pwyllgor Safonau wedi derbyn adroddiad ymchwil a gynhaliwyd gan y Cadeirydd a Chynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned ar anghenion yr gynghorau. Gofynnwyd i raglen weithgareddau gael ei pharatoi mewn ymateb.

Yn genedlaethol mae camau wedi eu cymryd gyda chymorth CLlC i sefydlu Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol yn seiliedig Yn helaeth ar y model a ddatblygwyd yng Ngogledd Cymru. Cyfarfu y Fforwm am y tro cyntaf ar 27ain o Ionawr.

**Cynnal trefniadau anwytho a hyfforddi aelodau y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad yn sgil yr etholiadau lleol.**

Cynhaliwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fel rhan o'r sesiynau anwytho a llwyddwyd i ddarparu hyfforddiant i bron pob aelod bellach. Mae'r gwaith yma yn parhau gyda cwrs manylach wedi yn cael ei ddarparu ar 2 achlysur yn barod Bwriedir cynnal sesiynau pellach er cyfarch gofyn ychwanegol. Mae cwrs wedi ei baratoi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned y gellir ei ddarparu yn rhithiol a bwriedir cychwyn rhaglen o sesiynau pan fydd adnoddau yn caniatáu. Mae hyn yn cyd glymu a gwaith y Pwyllgor Safonau ar sefydlu gwir anghenion y Cynghorau Tref a Chymuned.

## <u>ETHOLIADAU A CRWNER</u>

### <u>Ein blaenoriaeth ar gyfer 2022/23:</u>

**Cefnogi y Swyddog Canlyniadau i ddarparu Etholiadau Lleol Mai 2022**

Cynhaliwyd yr Etholiadau Lleol ym Mai 2022 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadau ynglŷn a'r trefniadau eleni . Bydd adolygiad o'r trefniadau a chynllun gwaith ar gyfer datblygu a gwella i'r dyfodol yn cael ei baratoi ac mae perfformiad yr etholiad yma wedi tanlinellu gwerth gweithredu yn y modd yma.

**Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.**

Yn ystod 2021 -2022 drwy fuddsoddiad mewn staff a rhaglen gyfathrebu uniongyrchol llwyddwyd i gael gofrestru o ddeutu 70% o etholwyr 16- 18 ar gyfer etholiadau Mis Mai. Roedd hyn wedi cynnwys gwaith gyda Ysgolion Colegau a'r Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo cofrestru ynghyd a ymgyrch gohebu uniongyrchol. Yn ogystal a hyn llwyddwyd i gael dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn oedd yn llwyddo a'r dulliau o ymgysylltu ynghyd a

chreu cysylltiadau mewn sefydliadau y gellir eu datblygu a defnyddio i'r dyfodol. Mae'n anodd cael data cymharol ar gyfer hyn am y cyfnod hyd ddiwedd Ebrill 2022.

Rydym yn broses of greu swydd barhaol fydd yn ymysg y dyletswyddau yn parhau a'r gwaith hyrwyddo cofrestru yn benodol o amgylch y grŵp yma o etholwyr. Mae hyn yn dod ar gefn datblygiadau yn y maes etholiadol ar lefel DU megis angen cerdyn adnabod a threfniadau pleidleisiau post. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddatblygu a diwygio etholiadau datganoledig. Bydd rhaglen waith yn cael ei pharatoi fydd yn rhan o Gynllun y Gwasanaeth i 2023/24

**CRWNER**

**Ein blaenoriaeth ar gyfer 2022/23:**

**Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy.**

Bellach mae'r cyfweliad wedi ei gynnal a cyngor y panel wedi ei roi i'r Arglwydd Ganghellor . Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cychwyn ar sail parhaol a bydd cyd weithio gyda'r Uwch Grwner i osod y trefniadau ar sail tymor hir.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**SYLWADAU – PENNAETH CYLLID**
Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.